

CROESO GAN EIN CADEIRYDD, CHRIS MARTIN

Mae'n 65 mlynedd ers i Borthladd Aberdaugleddau gael ei greu gan y llywodraeth ar y pryd, a chredwn ei bod hi'n bwysig dathlu'r garreg filltir hon. Pam? Oherwydd ers cymaint o genedlaethau, mae Dyfrffordd Aberdaugleddau wedi bod yn rhan annatod o hanes cyfoethog Sir Benfro ac wedi chwarae rhan hollbwysig yn esblygiad ynni ein cenedl dros y chwe degawd a hanner diwethaf. Nid yw'n gor-ddweud bod ein gallu gweithredol yn hollbwysig i ddiwydiannau, llywodraethau a chymunedau ledled y byd.

Roedden ni'n gwybod y byddai eleni yn esgor ar adegau arwyddocaol sy'n crynhoi'r diben, y swyddogaeth a'r weledigaeth yn Neddf Gwarchodaeth 1958. Fel ym 1958, mae angen i'r DU ailfeddwl am ei ffynonellau ynni, a gall asedau naturiol Sir Benfro gamu i'r adwy unwaith eto. Heddiw, fel bryd hynny, mae ein cymunedau arfordirol yn fwy agored na'r rhelyw i amodau economaidd a chymdeithasol. Mae'r ddyfrffordd wedi cael hwb newydd a modd i sicrhau ffyniant. Ac oherwydd yr hyn a grëwyd ym 1958, rydyn ni mewn sefyllfa dda yn awr i fanteisio ar yr adnoddau a'r arbenigedd sydd eu hangen i wneud y gorau o gyfle hanesyddol arall i'n rhanbarth ac i'r DU.

Mae golwg ar y prif ganlyniadau yn dangos bod ein busnes craidd wedi parhau i helpu i ateb y galw mawr am fewnforion ynni yn y DU. Parhaodd yr ochr morgludiant yn brysur. Roedd ymrwymiad ein tîm morol i ragoriaeth a thywys 58.7m tunnell gros a mwy nwyddau yn ddiogel, yn rhai o amodau morol mwyaf heriol y byd, yn ganolog i'n gwaith. Hefyd, mae'n deilwng nodi i ni gofnodi ein refeniw uchaf erioed yn ein hanes wrth i ni ddathlu 65 mlynedd ers sefydlu'r porthladd.

Eleni, roedd modd gweld yn gliriach beth mae gadael yr UE yn ei olygu i'n busnes, o ran sut mae nwyddau'n llifo i lwerddon ac yn ôl a ble mae'r llongau pysgota ar y môr yn dadlwytho eu dalfeydd. Mae'r newidiadau hyn yn parhau i gael effaith negyddol ar ein hincwm.

Gadawaf i'r Prif Weithredwr, Tom Sawyer, roi sylwebaeth busnes llawn ond rwy'n falch o weld bod busnes y Porthladd yn parhau'n gryf, er gwaetha'r amseroedd heriol a cholled gyffredinol i'r Grŵp. Fel porthladd ymddiriedolaeth, er ein bod ni'n gweithredu ar sail fasnachol gan godi ffioedd am ein gwasanaethau, ein cyfleusterau a'n lleoedd, rydyn ni'n ail-fuddsoddi unrhyw elw dros ben yn ôl i'r Porthladd, yn buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer yr hirdymor neu i safon amgylcheddol uwch, yn buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau ychwanegol ar gyfer staff i ddatblygu'r sylfaen sgiliau lleol, ac yn gwneud cyfraniadau elusennol sylweddol i brosiectau cymunedol fel bod ein holl randdeiliaid ar eu hennill yn y pen draw. Rydyn ni wedi datblygu ein busnes i ymdopi'n well â'r elfennau 'ansicr' allanol, ac mae'n galonogol iawn gweld ein strategaeth arallgyfeirio yn parhau i dyfu ein busnes, gan adael gwaddol cryfach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cafodd gwesty Tŷ Glanfa Aberdaugleddau flwyddyn lawn gyntaf arbennig. Mae'n glod i ymdrechion penderfynol ein tîm a'n busnesau partner sydd wedi creu cymuned mor fywiog; mae wedi talu ar ei ganfed. Does dim dwywaith bod y blynyddoedd diwethaf wedi yn gyfnod anodd i'r diwydiant lletygarwch a manwerthu, a dyw busnesau o amgylch y Lanfa ddim gwahanol yn hyn o beth. Er gwaethaf hyn, rydyn ni'n parhau i ddenu busnesau bach annibynnol a brandiau rhyngwladol cyfarwydd; diolch yn rhannol i effaith y gwesty newydd, gobeithio.

Yn Noc Penfro gwelsom gwblhau ein llithrfa mwy o faint, pontynau cychod gwaith, gofod swyddfa ac ardaloedd blociau - carreg filltir bwysig arall yn ein hymrwymiad i ailwampio'r Porthladd yn barod at y dyfodol. Yn rhan o brosiect Ardal Forol Doc Penfro Bargaen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £60m, ein buddsoddiad o £13m oedd y penderfyniad buddsoddi mwyaf a wnaethom yn ystod fy nghyfnod i fel Cadeirydd o bell ffordd. Rwy'n hyderus mai dyma fydd yr un mwyaf dylanwadol, nid yn unig i'n



Safety



Excellence



Collaboration



Sustainability

THE UK'S LEADING ENERGY PORT

mhp.co.uk

busnes ond i Sir Benfro a Chymru gyfan hefyd, gan osod y sylfeini i fod yn ganolfan bwysig ar gyfer ynni gwynt arnofiol ar y môr a mathau eraill o ynni adnewyddadwy morol.

Ein huchelgais strategol hirdymor ar gyfer Porthladd Penfro yw ei ddatblygu'n borthladd gwirioneddol amlbwrpas, parod ar gyfer ynni yn y dyfodol. Rhaid iddo gyflawni ei botensial mwyaf posibl ar gyfer y sector ynni hwn sy'n prysur esblygu, yn ogystal â chreu cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr morwrol eraill, fel ein bod yn parhau i archwilio ffyrdd o ddatblygu ein seilwaith. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraethau'r DU a Chymru fod cais y Porthladd Rhydd Celtaidd yn llwyddiannus. Ers y cam ymgeisio cychwynnol hwn, rydyn ni wedi parhau i weithio ochr yn ochr â'n partneriaid, Associated British Ports Port Talbot a chynghorau rhanbarthol Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot, i ennill statws porthladd rhydd. Bu'n enghraifft wych o gydweithio lle mae'r partneriaid wedi canolbwyntio ar ddatgloi ffyniant ar gyfer rhanbarth y De-orllewin trwy ail-ddiwydiannu carbon isel.

Hefyd, rydyn ni wedi gweithio'n galed i fod yn hyrwyddwr teilwng ar gyfer y rhai sydd angen cymorth mewn cymunedau ledled Sir Benfro, a'r agwedd hon ar ein busnes yw'r un rwyf fwyaf balch ohoni. Mae'n werth cofio na fyddai'r gwaith a gefnogwyd gennym yn 2023 drwy bartneriaid anhygoel, gan gynnwys Milford Youth Matters a Gwasanaethau Ieuencid Sir Benfro, wedi bod yn bosibl oni bai am y ffaith bod Porthladd yn parhau i fod yn endid masnachol cryf. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod ein staff yn rhoi cymaint o'i hamser yn gwirfoddoli a chefnogi gweithgareddau cymunedol yn brawf arall o gymaint y mae diwylliant ein busnes wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn ychwanegu elfen arbennig at bopeth a wnawn. Mae ein hachrediad eleni fel 'Great Place to Work' TM yn dystiolaeth bod gennym dîm ymroddedig sy'n arddel ein diben ac wedi'u hysgogi gan eu gallu i wneud gwahaniaeth go iawn. Mae gennym dîm gwych ac rwy'n falch iawn ohonyn nhw i gyd.

Bu'n ffrain aruthrol arwain Porthladd Aberdaugleddau dros y 7 mlynedd diwethaf. A dyma'r adroddiad blynyddol olaf i mi, rwy'n addo! Mae'r ffaith ein bod yn borthladd ymddiriedolaeth yn bwysig i mi; mae'n bwysig i'n pobl, mae'n bwysig i'n cymunedau. Yn bwysicaf oll, mae'n bwysig i'n dyfodol ni i gyd. Byddaf yn trosglwyddo'r awenau yn ffyddiog fy mod yn gadael y Porthladd mewn lle gwell nag yr oedd pan gyrhaeddais. Dyna a ddisgwylir gan unrhyw un sy'n cael y dasg o arwain porthladd Aberdaugleddau.

Nid oeddwn yn gweithio ar fy mhen fy hun - cefais gefnogaeth barhaus gan holl dîm y Porthladd sydd bob amser yn mynd yr ail filltir ac sy'n ysbrydoliaeth gyson i mi. Rwyf wedi gweithio law yn llaw â'n hamrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n helpu i wneud Dyfrffordd Aberdaugleddau mor arbennig. Ac, wrth gwrs, gweithio gyda'r unigolion dawnus sydd ar ein Bwrdd. Yn 2024 bydd y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn newid gydag Ian Shipperley, Debra Williams a Steve Phillips yn gorffen eu hail dymor, a hoffwn ddiolch iddyn nhw am eu hegni a'u doethineb diflino. Byddwn yn croesawu tri Chyfarwyddwr Anweithredol newydd, David Martin, James Higham a Gareth Powell, a fydd yn parhau â'r traddodiad o gyflwyno arbenigedd a phrofiad amhrisiadwy, gan helpu i lywio'r Porthladd yn ei flaen. Rwy'n dymuno'r gorau iddyn nhw.

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r adroddiad hwn sydd, yn fy marn i, yn dangos bod fy nghydweithwyr gwych unwaith eto wedi llwyddo i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sefydliad 65 oed hwn ym mhob ffordd. Mae'r ddyfrffordd hon, a'r holl bobl sy'n dibynnu arni am fywoliaeth a chartref, ar groesffordd bwysig... felly hoffwn ddweud ffarwel wrth bawb fel Cadeirydd Porthladd Aberdaugleddau yn llawn gobaith at y dyfodol.

Diolch o galon i chi gyd.

Chris Martin, Cadeirydd

